# COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BWNC 2 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEN, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD GWENER, 19 IONAWR 2024 AM 10:00

## Yn bresennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | D T Harrison | M Lewis | A Wathan |

## Yn bresennol yn rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | P Davies | D M Hughes | J Llewellyn-Hopkins |
| RL Penhale-Thomas | R Williams | | |

## Ymddiheuriadau

| | | |
|---|---|---|
| H David | H Williams | L Kinsey |

## Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Ddiogelwch a Lles Cymunedol |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Jaceline Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Christopher Morris | Rheolwr Cyllid – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant / Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr |

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD GWENER, 19 IONAWR 2024**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |
| Joanne Norman | Rheolwr Grŵp Dros Dro - Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllideb |
| Andrew Thomas | Rheolwr Grŵp Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol |
| David Wright | Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro/Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Datganiadau Buddiannau

Y Cynghorydd Maxine Lewis – Personol – SSW12
Y Cynghorydd Richard Williams – Personol – Deddf Terfysgaeth – gwrthderfysgaeth – aelod o'r teulu
Y Cynghorydd Paul Davies – Rhagfarnus – SSW12

## 58. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 dyddiedig 23 Tachwedd 2023 a 6 Rhagfyr 2023 fel cofnodion gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad a Wnaed | 19 Ionawr 2024 |

## 59. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol: |

| | |
|---|---|
| | 1. Argymhellodd y Pwyllgor, er mwyn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed, o ystyried y setliad gwell na'r disgwyl sy'n cyfateb i £1M ychwanegol ac unrhyw gyllid ychwanegol posibl arall a dderbynnir gan y Setliad Terfynol, y dylid gofyn i'r Cabinet ailasesu'r Cynigion Gostyngiad Cyllideb canlynol am y rhesymau a nodwyd ar gyfer pob un:<br><br>**a.** **SSW16** - Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch dileu 50% o'r gyllideb i leihau neu ddileu cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol a theuluoedd i gael mynediad at weithgareddau a chyfleoedd cymunedol, o ystyried yr effaith uchel bosibl ar yr unigolion a'u teuluoedd a'r risgiau a nodir yn yr adroddiad.<br><br>b. **SSW20** - Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch dileu adnoddau gweithwyr achos ac arbedion effeithlonrwydd o Gontractau'r trydydd sector – rhyddhau o'r ysbyty, ac y gallai colli'r gwasanaeth hwn gael effaith negyddol ar gymorth amserol i bobl ddychwelyd adref o'r ysbyty.<br><br>2. Gan fod nifer o Gynigion i Leihau Cyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnwys cyfeiriad at Adolygiadau, mae'r Pwyllgor yn gofyn am eglurder ynghylch yr hyn sy'n dal i gael ei ystyried wrth symud ymlaen, y risgiau i'r gallu i gyflawni unrhyw gynigion sy'n cynnwys adolygiadau, ac a oes modd dibynnu arnynt i bennu cyllideb gytbwys.<br><br>3. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y diffyg cydnabyddiaeth o'r anhawster o osod cyllidebau ar sail dibyniaeth tymor byr ar gyllid Grant, yr ansefydlogrwydd a'r ansicrwydd pan fydd cyllid Grant tymor byr yn cael ei ddileu a'r effaith ar sefydlogrwydd darparu gwasanaethau. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn lobïo i ddod â chyllid Grant tymor byr i ben o blaid cyllid hirdymor parhaus sydd wedi'i gynnwys yn y setliad.<br><br>4. Myfyriodd y Pwyllgor ar gost uchel Lleoliadau Preswyl Annibynnol ar gyfer Plant sydd â Phrofiad o Ofal a chost y lleoliadau hynny a oedd y Tu Allan i'r Sir, ac er yn cydnabod y cymhlethdodau a'r anawsterau ac, er yn cefnogi'r cynllun sydd ar waith a'r gwaith sy'n mynd rhagddo, argymhellodd y dylid rhoi blaenoriaeth i ddod â'r lleoliadau hynny yn ôl i ddarpariaeth sirol lle bo hynny'n bosibl, er mwyn diwallu anghenion a gweithio tuag at leihau'r gost dros ddwy i dair blynedd.<br><br>**<u>Gwybodaeth ychwanegol</u>**<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | **Lleoliadau Preswyl Annibynnol ar gyfer Plant â Phrofiad o Ofal** – Faint o leoliadau y tu allan i'r sir ac yn y sir a'r costau.<br><br>Pwysau Cyllidebol:<br><br>**SSW3 – Cost uwch Gofal Cartref i Oedolion ag Anableddau Dysgu:** Roedd gwybodaeth am swm y cyllid grant a gollwyd yn y gyllideb Anableddau Dysgu a gostyngiadau mewn cyllid Grant arall y cyfeirir ato sydd wedi effeithio ar y gyllideb Anableddau Dysgu.<br><br>**Cyffredinol** – Cyfathrebiadau â Phwyllgor Cyllid Llywodraeth Cymru i'w rhannu i Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>Cynigion i Leihau'r Gyllideb:<br><br>**SSW11 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i hepgor diogelu consesiynau a chyfraddau gostyngol ar gyfer pobl fwy agored i niwed mewn lleoliadau hamdden:**<br>egluro beth arall sydd wedi'i gynnwys yn y llinell gyllideb honno o £1.271M ac esboniad ynghylch a yw'r llinell arbediad / cyllideb hon o fewn ffi HALO Management o £1.399M neu beidio.<br><br>**SSW22 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried arbedion effeithlonrwydd o Gontractau'r Trydydd Sector – Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau:**<br>Esboniad o'r naratif pam: "nid oes unrhyw atgyfeiriadau newydd wedi cael eu gwneud gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eleni".<br><br>**SSW26 - Cynyddu Taliadau cartrefi gofal mewnol:**<br>Manylion y tâl a'r cynnydd ar gyfer y preswylwyr hynny sy'n talu cost lawn ffioedd gofal preswyl mewnol, sy'n deillio o'r cynnig hwn ar gyfer adennill costau llawn. |
| Dyddiad y Penderfyniad a Wnaed | 19 Ionawr 2024 |

## 60. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD GWENER, 19 IONAWR 2024**

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad a Wnaed | 19 Ionawr 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon ar gyfer Rhan Un a'r ddolen hon ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:45.